Papur Testun Rhif 18 Twristiaeth - Crynodeb

Cyflwyniad

Dylai'r system gynllunio annog twristiaeth gynaliadwy i ddod â buddion sylweddol i'r economi leol a mewnfuddsoddi, gan ddarparu swyddi a chwarae rôl allweddol mewn datblygu gwledig ac adfywio trefol.

Cyd-destun

Mae atyniadau twristiaeth Sir y Fflint yn ddelfrydol ar gyfer seibiannau byr, rhywle i aros ar y ffordd, neu rywle i fynd am ddiwrnod allan.
Ceir Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd, canolfan lan y môr draddodiadol Traeth Talacre, Parc Treftadaeth Dyffryn Maes Glas a Pharc Gwepra ynghyd â threfi marchnad traddodiadol. Bwriad Strategaeth Dwristiaeth Cyngor Sir y Fflint yw gwireddu potensial twristiaeth yn y Sir drwy:

- ddatblygu asedau digyffwrdd Sir y Fflint;
- pennu a hyrwyddo delwedd benodol ar gyfer Sir y Fflint;
- marchnata pecynnau penodol a;
- sicrhau fod ymwelwyr i atyniadau cyfagos a thwristiaid sy'n gyrru trwodd yn gwybod am ansawdd ac amrywiaeth y cyfleoedd sydd ar gael iddynt yn y Sir.

Rôl y Cynllun

Mae'n hanfodol fod y Cynllun yn mabwysiadu agwedd gynaliadwy tuag at ddatblygu twristiaeth fel bo anghenion ymwelwyr i'r ardal yn cael eu bodloni mewn modd sy'n darparu symbyliad positif ar gyfer gwarchod a gwella'r adnoddau naturiol a hanesyddol hyn. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod yr atyniad i dwristiaid yn aml yn seiliedig ar ansawdd yr amgylchedd naturiol, adeiledig a diwylliannol.

Cynlluniau a Strategaethau Cyflogaeth ac Economi Allweddol

- Cyflawni ein Potensial 2006-2013; Strategaeth Dwristiaeth i Gymru, Adolygiad Canol Tymor.
- Strategaeth Dwristiaeth Gogledd Cymru 2010-2015.
- Cynllun Datblygu Gwledig i Gymru (2007-2013).
- Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 5, Tachwedd 2012) (Llywodraeth Cymru).
- Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 13 Twristiaeth (Swyddfa Gymreig 1997).
- Strategaeth Dwristiaeth Sir y Fflint 2008-2013.

Materion yr eir i'r afael â nhw yn y Cynllun

- sefydlu fframwaith strategol ar gyfer darparu a gwella cyfleusterau twristiaeth sydd wedi'u llunio'n dda.
- ystyried maint a dosbarthiad eang y cyfleusterau a'r gweithgareddau presennol a rheoli a darparu lle ar gyfer anghenion y dyfodol mewn ffyrdd sy'n cyfyngu ar effeithiau amgylcheddol negyddol.
- rhoi ystyriaeth i oblygiadau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol newidiadau tebygol yn y dyfodol mewn cyfleusterau a rhoi sylw i amcanion adfywio trefol ac arallgyfeirio gwledig.
- cynnwys polisïau clir ar gyfer darparu a gwella cyfleusterau i dwristiaid.
- gosod allan polisïau i osgoi neu ddatrys gwrthdaro rhwng gwahanol weithgareddau.
- dangos sut y caiff tir a chyrff dŵr a ddatblygwyd yn y gorffennol neu sy'n segur eu hystyried ar gyfer dibenion twristiaieth, yn arbennig o ran adfywio trefol.
- canfod cyfleusterau a allai gynhyrchu lefelau uwch o deithio yng nghanol neu'n agos at drefi, lle bo hynny'n bosibl.

- darparu canllaw ynglŷn â mynediad at gefn gwlad a'r arfordir at ddibenion twristiaeth.

Polisïau / Cynigion Defnydd Tir Posibl

Roedd y CDU yn cynnwys 10 o bolisïau a chynigion yn y bennod 'Twristiaeth'. Mae nifer o'r rhain yn bolisïau manwl a thra bo rhai ohonynt yn cael eu defnyddio, yn aml iawn mae canllawiau ar gael mewn rhannau eraill o'r Cynllun, neu gallai'r polisïau gael eu cyfuno i fod yn fwy cryno a chanolbwyntiedig. Yn dilyn asesiad o bolisïau'r CDU cynigir fod y prif bolisïau a chynigion yn ymwneud yn bennaf â:

- Canllaw ar gyfer datblygu atyniadau twristiaeth newydd neu ymestyn rhai presennol.
- Canllaw ar gyfer datblygu llety â gwasanaeth neu lety hunanddarpar newydd i dwristiaid neu ymestyn rhai presennol.
- Canllaw ar gyfer llety i dwristiaid yn gysylltiedig â charafannau.
- Adolygu ardaloedd Talacre, Gronant a Gwesbyr lle mae datblygu twristiaeth carafannau'n cael ei wrthod.
- Dynodiad twristiaeth i ddiogelu buddion Dyffryn Maes Glas.